

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Llun, 16 Mehefin 2014

Amser:

13.30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Gareth Williams

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8008/8019

PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

Agenda

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
- 2 Tystiolaeth mewn perthynas â'r Bil Addysg Uwch (Cymru) (Tudalennau 1 – 56)
(Amser a ddynodwyd: 13.30 – 14.15)

Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

CLA(4)–17–14 – **Papur 1** – Datganiad o Fwriad Polisi

CLA (4)–17–14 – **Papur 2** – Tabl tarddiadau

CLA(4)–17–14 – **Papur 3** – Tystiolaeth gan Addysg Uwch Cymru

CLA(4)–17–14 – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

CLA(4)–17–14 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

- 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad

arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalennau 57 – 61)

CLA(4)-17-14 – Papur 4 –Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

CLA406 – Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2014
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 30 Mai 2014; Fe'u gosodwyd ar: 3 Mehefin 2014; Yn dod i rym ar: 27 Mehefin 2014

CLA407 – Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 4 Mehefin 2013; Fe'u gosodwyd ar: 6 Mehefin 2014; Yn dod i rym ar: 2 Medi 2013

CLA408 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 5 Mehefin 2014; Fe'u gosodwyd ar: 9 Mehefin 2014; Yn dod i rym ar: 4 Gorffennaf 2014

CLA409 – Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol) 2014
Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 5 Mehefin 2014; Fe'i gosodwyd ar: 9 Mehefin 2014; Yn dod i rym ar: 2 Awst 2014

CLA411 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 9 Mehefin 2014; Fe'u gosodwyd ar: 10 Mehefin 2014; Yn dod i rym ar: 1 Gorffennaf 2014

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

CLA410 – Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Diwygio) 2014
Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: Dyddiad heb ei nodi; Fe'i gosodwyd ar: 10 Mehefin 2014; Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1

CLA412 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Newidiadau Ansylweddol a Chywirow Gwallau) (Cymru) 2014
Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: Dyddiad heb ei nodi; Fe'i gosodwyd ar: 10 Mehefin 2014; Yn dod i rym ar: 1 Medi 2014

CLA413 – Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Newidiadau Eraill Difaterol) (Cymru) a Thref 2014
Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: Dyddiad heb ei nodi; Fe'u gosodwyd ar: 10 Mehefin 2014; Yn dod i rym ar: 1 Medi 2014

4 Tystiolaeth mewn perthynas â'r Ymchwiliad i Anghymhwysio Person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Tudalennau 62 – 87)
(Amser a ddynodwyd: 14.15 – 15.00)

Keith Bush QC

CLA(4)–17–14 – Papur 5 – Tystiolaeth Ysgrifenedig

CLA(4)-17-14 – Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;

Y prif faterion a'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn yr ymchwiliad i anghymhwyso

Aelodau (Tudalennau 88 – 160)

CLA (4)-17-14 – Papur 6 – Prif faterion

CLA (4)-17-14 – Papur 7 – Crynodeb o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig

CLA (4)-17-14 – Papur 8 – Gorchymyn Cynulliad Cenedlathol Cymru (Anghymhwyso) 2010

CLA (4)-17-14 – Papur 9 – Tabl Anghymhwyso 1

CLA (4)-17-14 – Papur 10 – Tabl Anghymhwyso 2

CLA (4)-17-14 – Papur 11 – Darn i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

CLA (4)-17-14 – Papur 12 – Llythyr at William Powell AC

CLA (4)-17-14 – Papur 13 – Lythyr at Russel George AM

CLA (4)-17-14 – Papur 14 – Llythyr gan William Powell AC

CLA (4)-17-14 – Papur 15 – Llythyr at Ysgrifennydd Gwladol Cymru

CLA (4)-17-14 – Papur 16 – Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil Cymru

(Tudalennau 161 – 164)

CLA(4)-17-14 – Papur 17 – Adroddiad drafft

Ymateb Drafft i Adolygiad Llywodraeth y DU o Gydbwysedd Cymwyseddau

(Tudalennau 165 – 173)

CLA(4)-17-14 – Papur 18 – Ymateb drafft



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Addysg Uwch (Cymru)

Bwriad polisi mewn cysylltiad â
rheoliadau sydd i'w gwneud
o dan y Bil

Mai 2014

BWRIAD POLISI MEWN CYSYLLTIAD Â'R RHEOLIADAU ARFAETHEDIG SYDD I'W GWNEUD O DAN Y BIL ADDYSG UWCH (CYMRU)

1. Mae'r ddogfen hon yn sôn am y cyfeiriad polisi cyfredol mewn cysylltiad â'r rheoliadau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil Addysg Uwch (Cymru) ('y Bil').
2. Bydd y Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Bydd yn gwneud hyn drwy roi'r swyddogaethau angenrheidiol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC') i sicrhau ansawdd addysg uwch, gorfodi rheolaethau ffioedd dysgu a gofynion cynlluniau ffioedd, a sefydlu fframwaith ar gyfer trefnu a rheoli materion ariannol darparwyr addysg uwch yng Nghymru sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd gan CCAUC.
3. Mae elfennau allweddol y fframwaith rheoleiddio newydd wedi'u hamlinellu yn y Bil a byddant yn cychwyn naill ai pan roddir Cydsyniad Brenhinol neu yn unol â gorchmynion cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae'r Bil yn rhoi nifer o bwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n dilyn yn rhesymol yn sgil yr hyn a ddisgrifir yn glir yn y Bil. Bydd y rhain yn caniatáu i fanylion gweithdrefnol gael eu pennu, ac yn darparu hyblygrwydd yn y dyfodol o ran materion a allai newid o bryd i'w gilydd.
4. Ac eithrio'r pŵer i gychwyn darpariaethau'r Bil drwy orchymyn, mae'r pwerau dirprwyedig a ddarperir gan y Bil hwn ar ffurf rheoliadau. Bwriad Llywodraeth Cymru yw ymgynghori ar fanylion y rheoliadau arfaethedig cyn iddynt gael eu gwneud.
5. Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth am y bwriadau polisi mewn cysylltiad â'r rheoliadau hynny a wneir o dan y Bil, os cânt eu deddfu.
6. O ran y pŵer i wneud gorchmynion ar gyfer cychwyn y ddeddfwriaeth, mae adran 56 o'r Bil yn darparu y daw Rhan 1 a rhai darpariaethau eraill i rym ar y diwrnod pan fydd y Ddeddf yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Cychwynnir darpariaethau eraill y Bil, drwy orchymyn, pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol neu'n fuddiol. Y bwriad yw bod rhai darpariaethau yn cael eu gweithredu ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16. Mae hyn yn rhagdybio y ceir Cydsyniad Brenhinol ddechrau 2015 ac y gwneir is-ddeddfwriaeth yn ystod 2015, gan gyflwyno'r system reoleiddio newydd yn ystod 2016 mewn pryd i'w chychwyn yn llawn yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17. Ystyrir bod yn rhaid gweithredu hyn yn raddol er mwyn i'r broses bontio i'r fframwaith rheoleiddio newydd fod yn un llyfn.
7. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â:

Y Bil drafft

<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=256106&ds=5/2014>

Y Memorandwm Esboniadol

<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=256107&ds=5/2014>

Yr Ymgynghoriad Technegol

<http://wales.gov.uk/consultations/education/higher-education-wales-bill-technical-consultation/?skip=1&lang=cy>

Y Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad Technegol

<http://wales.gov.uk/consultations/education/higher-education-wales-bill-technical-consultation/?skip=1&lang=cy>

RHAN 2 - CYNLLUNIAU FFOEDD A MYNEDIAD

8. Bydd y Rhan hon o'r Bil yn caniatáu i rai sefydliadau yng Ngymru wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Mae'r Rhan hon hefyd yn delio â chynnwys cynlluniau ffioedd a mynediad, gan gynnwys terfyn ffioedd ar gyfer rhai cyrsiau. Bydd gofyn i CCAUC fonitro i ba raddau y mae sefydliadau yn cydymffurfio â'u cynlluniau ffioedd a mynediad (gan gynnwys terfynau ffioedd) ac mae'r Rhan hon yn rhoi nifer o swyddogaethau newydd i CCAUC fel y gall ymgymryd â'r rôl hon.
9. Cyfeirir at y canllawiau a'r rheoliadau canlynol yn yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r rheoliadau sydd i'w gwneud o dan Ran 2 y Bil:
 - Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 (OS 2011/884 (Cy.128))
Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/884/contents/made>
 - Guidance to HEFCW on Fee Plan Approval and Enforcement, Ebrill 2011
Ar gael yn: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/heplans/?lang=cy>
 - Ymgynghoriad Technegol ar y Bil Addysg Uwch (Cymru) - (paragraffau 3.4, 4.24, 4.5)
Ar gael yn: <http://wales.gov.uk/consultations/education/higher-education-wales-bill-technical-consultation/?lang=cy>
 - Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2011
Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/691/contents/made>
 - Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013
Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/3177/contents/made>

10. Mae'r tablau ar y dudalen nesaf yn nodi'r bwriadau polisi mewn cysylltiad â phob un o'r pwerau i wneud rheoliadau yn y Rhan hon o'r Bil.

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Ceisiadau am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad.
ADRAN	2(4)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 2 yn caniatáu i gorff llywodraethu math arbennig o sefydliad wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Rhaid i'r sefydliad fod yng Nghymru, rhaid iddo ddarparu addysg uwch a rhaid iddo fod yn elusen.</p> <p>Mae adran 2(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ynghylch y drefn o wneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r wybodaeth a'r gofynion sydd wedi'u hamlinellu yn y rheoliadau hyn yn debygol o fod yn dechnegol eu natur ac o fod angen eu diweddar'u rheolaidd. Efallai y bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno gwybodaeth neu ddogfennau penodol i CCAUC ochr yn ochr â'u ceisiadau am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Mae'r gofynion hyn ynghylch gwybodaeth a dogfennau yn debygol o newid dros amser yn sgil newidiadau yn y ffordd y darperir addysg uwch yng Nghymru yn ogystal â datblygiadau technolegol. Mae angen yr hyblygrwydd ar Weinidogion Cymru i ymateb i'r newidiadau hyn a fydd yn sicrhau bod y broses gais mewn cysylltiad â chynllun ffioedd a mynediad yn parhau'n gyfredol.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Disgwylir i CCAUC ei gwneud yn ofynnol cael gwybodaeth neu ddogfennau penodol gan sefydliadau sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Bwriad y polisi yw y bydd y rheoliadau hyn yn amlinellu'r wybodaeth a'r dogfennau y bydd angen i sefydliadau sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad eu darparu i CCAUC. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth sy'n dangos bod yr addysg a ddarperir gan y sefydliad o ansawdd digonol a bod trefniadau rheoli ariannol y sefydliad yn gadarn. Gallai gynnwys hefyd fanylion y math a'r amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch a ddarperir gan y sefydliad yn ogystal â gwybodaeth am record y sefydliad, a'i gynlluniau, o ran denu myfyrwyr o bob math o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd.</p> <p>Cynigir hefyd bod y manylion technegol am y broses gais yn cael eu hamlinellu yn y rheoliadau. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am amserlenni, gofynion i ddarparu gwybodaeth gyswllt yn ogystal ag unrhyw wybodaeth arall resymol sy'n ofynnol gan CCAUC.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Dynodi darparwyr addysg uwch eraill.
ADRAN:	3(4)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr addysg uwch elusennol yng Nghymru yn 'sefydliad' at ddibenion y Bil ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir dano. Fel rheol, ni fyddai darparwr o'r fath yn cael ei ystyried yn 'sefydliad' o dan y Bil. Gall y darparwr wneud cais i'w ddynodi ei hun.</p> <p>Mae adran 3(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am sut y dylid gwneud cais i ddynodi darparwr, sut y dylid dynodi a thynnu dynodiad yn ôl, gan gynnwys materion i'w hystyried wrth asesu a ddyldid dynodi'r darparwr neu dynnu dynodiad yn ôl, ac effaith tynnu dynodiad yn ôl.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r materion sydd i'w hystyried yn y rheoliadau hyn yn debygol o fod yn dechnegol ac yn weinyddol eu natur ac o fod angen eu diweddarau'n rheolaidd. Efallai y bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyflwyno gwybodaeth benodol i Weinidogion Cymru i gyd-fynd â'u ceisiadau i gael eu dynodi. Mae'r gofynion hyn ynghylch gwybodaeth yn debygol o newid dros amser yn sgil newidiadau o fewn y sector addysg uwch yn ogystal â datblygiadau technolegol.</p> <p>Yn yr un modd, gallai'r gweithdrefnau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â dynodi neu dynnu dynodiad yn ôl newid dros amser wrth i wahanol ddarparwyr geisio dod yn rhan o'r sector addysg uwch yng Nghymru. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i'r newidiadau.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Gellid defnyddio'r pŵer hwn i ddynodi darparwr nad yw'n gallu dyfarnu graddau ond sy'n darparu cyrsiau addysg uwch eraill ar lefel is ar y fframwaith credydau a chymwysterau. Efallai na fydd darparwr o'r fath yn ystyried ei hun yn "sefydliad" at ddibenion adran 2, ond efallai serch hynny ei fod yn dymuno i'w gyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig drwy reoliadau cymorth i fyfyrwyr (at ddibenion cymorth i fyfyrwyr gan Weinidogion Cymru) a gallu gwneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad o dan yr adran honno.</p> <p>Bwriad y polisi yw y bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru i gael eu dynodi'n 'sefydliad' gyflwyno gwybodaeth neu ddogfennau penodol ochr yn ochr â'u cais. Byddai Gweinidogion Cymru yn gallu disgwyl yn rhesymol i ddarparwr gynnig prawf ei fod yn gweithredu yng Nghymru ac o'i statws elusennol. Gallai'r rheoliadau nodi hefyd sut dylid gwneud cais (er enghraifft yn ysgrifenedig).</p> <p>O dan adran 3(4), gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau am geisiadau gan ddarparwyr o'r fath, tynnu dynodiad yn ôl ac effaith gwneud hynny.</p> <p>Er mwyn diogelu buddiannau myfyrwyr presennol, cynigir bod y rheoliadau yn nodi y dylid, lle tynnir yn ôl ddynodiad darparwr fel sefydliad, parhau i drin y darparwr fel 'sefydliad' am gyfnod penodedig ac mewn perthynas ag elfennau penodol o'r fframwaith rheoleiddio newydd a sefydlwyd o dan y Bil.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Y cyfnod hiraf posibl ar gyfer cynllun ffioedd.
ADRAN:	4(2)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ffioedd a mynediad nodi'r cyfnod pryd bydd yn effeithiol. O dan is-adran (2), gall Gweinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau y cyfnod hiraf posibl ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad. Ni cheir nodi cyfnod ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad sy'n hirach na'r cyfnod hwn.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r cyfnod hiraf a nodir ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad yn debygol o newid dros amser yn sgil newidiadau o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru. Mae'r pŵer rheoleiddio hwn yn ofynnol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i'r newidiadau hyn.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bŵer tebyg i wneud rheoliadau yn adran 35(2) o Ddeddf Addysg Uwch 2004.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Daeth cynlluniau ffioedd yn ofyniad statudol yng Nghymru i sefydliadau a oedd yn codi ffioedd dysgu dros swm penodedig (£4,000) mewn perthynas â rhai cyrsiau cymhwysol a oedd yn cychwyn yn ystod y flwyddyn academaidd 2012/13. Ar hyn o bryd, mae rheoliadau yn pennu 2 flynedd fel y cyfnod hiraf posibl ar gyfer cynlluniau ffioedd. Y bwriad yw ymestyn hyn yn y tymor hir i 5 mlynedd. Bwriad y polisi yw lleihau'r beichiau gweinyddol ar CCAUC ac ar sefydliadau yng ngoleuni'r pŵer newydd arfaethedig i CCAUC, sef monitro i ba raddau y mae sefydliadau yn cydymffurfio â darpariaethau cynlluniau ffioedd a gymeradwywyd a gwerthuso effeithiolrwydd y cynlluniau hynny. Fodd bynnag, yn sgil yr angen i'r system newydd ymsefydlu, ni ddisgwylir i gyfnod cynlluniau ffioedd gael ei ymestyn y tu hwnt i 2 flynedd yn y set gyntaf o reoliadau.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae Rheoliad 8 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 yn nodi'r cyfnod hiraf posibl ar gyfer cynllun.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Disgrifiad o gyrsiau cymhwysol.
ADRAN:	5(2)(b)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ffioedd a mynediad nodi terfyn ffioedd mewn perthynas â phob 'cwrw cymhwysol', neu ddarparu ar gyfer pennu terfyn ffioedd o'r fath.</p> <p>Mae adran 5(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau ddisgrifiadau o 'gyrsiau cymhwysol'. Rhaid i gyrsiau o'r fath gael eu darparu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Pennir terfyn ffioedd ar gyfer cyrsiau cymhwysol. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ofynnol er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i newidiadau yn y system cymorth i fyfyrwyr neu o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru. Er enghraifft, os dynodir ystod newydd o gyrsiau at ddibenion cymorth i fyfyrwyr (sy'n golygu bod rhai myfyrwyr sy'n dilyn y cyrsiau hynny yn gymwys i dderbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru), mae'n debygol y gwneir y cyrsiau hynny yn 'gyrsiau cymhwysol' at ddibenion y terfyn ffioedd newydd a'r fframwaith rheoleiddio ehangach.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bŵer tebyg i wneud rheoliadau yn adran 28(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Mae'n debygol y bydd y diffiniad o "gyrsiau cymhwysol" yn gysylltiedig iawn â'r cyrsiau hynny a ddynodir yn awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr drwy reoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Yn gyffredinol, mae'n debygol y bydd y disgrifiad o gwrs cymhwysol wedi'i gyfyngu i gyrsiau addysg uwch i israddedigion a ddarperir yn llwyr neu'n bennaf yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys cyrsiau gradd gyntaf, Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HNDs), Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNCs) a chysiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae'n debygol y caiff cyrsiau a ddarperir ar ran sefydliad a reoleiddir o dan drefniadau breinio gyda sefydliad neu ddarparwr arall eu cynnwys yn y diffiniad o "gyrsiau cymhwysol" yn y rheoliadau.</p> <p>Ar hyn o bryd, caiff cyrsiau cymhwysol eu pennu yn Rheoliad 3 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2011.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Uchafswm terfynau ffioedd
ADRAN:	5(3)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
Ni ddylai terfyn ffioedd a nodir mewn cynllun ffioedd a mynediad, neu a bennir yn unol â chynllun o'r fath, fod yn fwy nag uchafswm penodedig. Mae adran 5(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r uchafswm hwn.	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae uchafswm y terfyn ffioedd sy'n berthnasol i rai cyrsiau addysg uwch ('cyrsiau cymhwysol') yn debygol o newid dros amser, mewn ymateb i newidiadau ym mholisi cymorth i fyfyrwyr, ffioedd gweinyddiaethau eraill y DU a ffactorau economaidd a chymdeithasol eraill. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i'r newidiadau hyn.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bŵer tebyg i wneud rheoliadau yn adran 28(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>O dan y system bresennol, mae Gweinidogion Cymru yn pennu swm ffioedd sylfaenol a swm ffioedd uwch mewn rheoliadau. Gall sefydliadau godi hyd at y swm sylfaenol heb gynllun ffioedd sydd wedi'i gymeradwyo. Mae angen i sefydliadau sy'n codi ffioedd sydd uwchlaw'r swm sylfaenol feddu ar gynllun ffioedd a gymeradwywyd. O dan y system newydd, y bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn pennu un swm ffioedd yn unig, a hwnnw fydd yr uchafswm y gellir ei godi gan sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad wedi'i gymeradwyo (sefydliad a reoleiddir).</p> <p>Bwriedir pennu swm o £9,000 yn y set gyntaf o reoliadau. Mae hyn yn cyfateb i'r swm uwch presennol, sef yr uchafswm y gellir ei godi gan y sefydliadau hynny sydd â chynllun ffioedd wedi'i gymeradwyo.</p> <p>Mae Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011 yn pennu'r symiau sylfaenol ac uwch y gall sefydliadau perthnasol eu codi drwy ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau gradd amser llawn.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Ystyr 'personau cymhwysol'
ADRAN:	5(5)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Bydd terfyn ffioedd a nodir mewn cynllun ffioedd a mynediad, neu a bennir gan gynllun o'r fath, ond yn berthnasol i ffioedd sy'n daladwy gan 'bersonau cymhwysol'. Mae adran 5(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu dosbarthiadau o bersonau mewn rheoliadau a fydd yn 'bersonau cymhwysol' at ddibenion y terfyn ffioedd. Ni fydd myfyrwyr rhyngwladol yn 'bersonau cymhwysol' at ddibenion adran 5 na'r rheoliadau cysylltiedig.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae pennu'r dosbarthiadau o bersonau a fydd yn 'bersonau cymhwysol' at ddibenion y terfyn ffioedd yn fater technegol y gallai fod angen ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd. Bydd y pŵer hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiweddarau ystyr 'personau cymhwysol' yn ôl y gofyn.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bŵer tebyg i wneud rheoliadau yn adran 28(6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Bydd y rheoliadau hyn yn pennu'r dosbarthiadau o bersonau y bydd y 'terfyn ffioedd' yn berthnasol iddynt (lle mae'r personau hynny yn dilyn cyrsiau cymhwysol).</p> <p>Mae 'personau cymhwysol' fel y'u pennir ar hyn o bryd yn rheoliad 4 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cyrsiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2011 yn debyg i'r ffordd y pennir 'myfyrwyr cymwys' yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013, ond nid yr un fath yn union. Mae'r diffiniad cyfredol o 'bersonau cymhwysol' yn cynnwys y grwpiau canlynol, ac mae'n rhaid iddynt fod yn byw fel rheol yn y DU ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Personau sydd wedi setlo yn y DU; • Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd; • Personau sydd â chaniatâd i ddod i'r DU neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd; • Ymfudwyr o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac aelodau o'u teuluoedd; • Personau sydd wedi setlo yn y DU ac sydd â hawl i breswyllo yn rhywle arall; • Plant gwladolion y Swistir; • Plant gweithwyr o Dwrci. <p>Mae'r diffiniad cyfredol o 'bersonau cymhwysol' hefyd yn cynnwys gwladolion yr UE.</p> <p>Nid oes bwriad ar hyn o bryd i wneud gwelliannau i'r diffiniad o 'bersonau cymhwysol' fel y'u pennir yn y rheoliadau presennol.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Ffioedd sy'n daladwy i bersonau eraill
ADRAN	5(9)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 5(2) yn cadarnhau mai ystyr 'terfyn ffioedd' at ddibenion y Bil yw terfyn ar y ffioedd sy'n daladwy gan 'berson cymhwysol' i sefydliad mewn perthynas â 'chwrs cymhwysol'. Mae hyn yn cyfateb i'r sefyllfa safonol, lle mae ffioedd yn daladwy gan fyfyrwr i'r sefydliadau sy'n darparu eu cyrsiau.</p> <p>Mae adran 5(9) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi amgylchiadau penodol lle mae ffioedd sy'n daladwy i berson arall mewn cysylltiad â chwrs person cymhwysol i'w hystyried yn ffioedd sy'n daladwy i'r sefydliad mewn cysylltiad â'r cwrs hwnnw. Bydd y pŵer hwn yn berthnasol lle darperir cwrs gan sefydliad neu ddarparwr, ar ran sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad sydd wedi'i gymeradwyo (sefydliad a reoleiddir).</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ofynnol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i newidiadau yn y ffordd y caiff ffioedd eu codi gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Bydd y pŵer hwn yn sicrhau na all sefydliadau sy'n dod i drefniadau breinio â sefydliadau neu ddarparwyr eraill osgoi'r terfyn ffioedd statudol drwy drefnu i'w sefydliadau partner godi ffioedd ar fyfyrwyr. Byddai hyn yn gwarchod myfyrwyr drwy sicrhau na chodir ffioedd ychwanegol amynt, a fyddai'n golygu bod cyfanswm y ffioedd sy'n daladwy yn uwch na'r terfyn ffioedd statudol.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Rydym yn cydnabod y gallai'r trefniadau breinio sy'n bodoli amrywio ac y gallai rhai ffioedd a godir am gwrs cymhwysol neu bob un ohonynt fod yn daladwy i sefydliad partner. Bwriad polisi'r rheoliadau hyn yw sicrhau nad yw'r ffioedd sy'n daladwy gan fyfyrwyr (personau cymhwysol) yn uwch na'r terfyn ffioedd statudol, hyd yn oed lle mae'r ffioedd hynny yn daladwy i rywrai ar wahân i sefydliad a reoleiddir sy'n gyfrifol am y cwrs.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch.
ADRAN:	6(1)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 6(1) yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad gynnwys y ddarpariaeth ar hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r wybodaeth am gyfle cyfartal ac addysg uwch at y diben hwn.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r wybodaeth a'r blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch yn debygol o newid dros amser i adlewyrchu newidiadau o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i'r newidiadau hyn drwy addasu'r gofynion o ran cynlluniau ffioedd a mynediad sefydliadau.</p> <p>Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru bŵer tebyg yn adran 33 o Ddeddf Addysg Uwch 2004.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Bwriad y polisi yw y bydd y rheoliadau hyn yn adeiladu ar y gofynion a amlinellir yn y rheoliadau presennol.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau 3 a 4 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 yn amlinellu cynnwys gofynnol cynllun ffioedd. Y bwriad yw ail-lunio nifer o'r gofynion cyfredol, megis y gofyniad i gynllun ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gymryd mesurau i ddenu ceisiadau gan grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol a'r gofyniad i ryddhau gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael. Bwriedir hefyd ymgorffori gofynion newydd ynghylch mesurau i'w cymryd i gadw myfyrwyr o grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol a hefyd ofyniad mewn perthynas ag amlinellu gwariant mewn perthynas ag amcanion cynllun os codir ffioedd sy'n uwch na swm trothwy penodedig.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Cymeradwyo neu wrthod cynllun ffioedd a mynediad
ADRAN:	7(3)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>O dan adran 7, gall CCAUC naill ai gymeradwyo neu wrthod cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad sefydliad.</p> <p>Mae adran 7(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am faterion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo neu wrthod cynllun.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r materion a fydd yn berthnasol i benderfyniad CCAUC i gymeradwyo neu wrthod cynllun ffioedd a mynediad sefydliad yn debygol o newid dros amser. Gallai sawl peth ddylanwadu ar hyn, er enghraifft y mathau o sefydliad sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth, ystod y cyrsiau a gynigir yng Nghymru a newidiadau eraill o fewn y sector addysg uwch. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiweddarau'r broses o gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad yn unol â'r newidiadau hyn.</p> <p>Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru bŵer tebyg yn adran 34(5) o Ddeddf Addysg Uwch 2004.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Mae rhai amodau sy'n ymwneud â chymeradwyo neu wrthod cynllun a gynigir wedi'u hamlinellu yn y Bil (adran 7(2)). Bwriad y polisi yw bod CCAUC, wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo cynllun a gynigir, orfod rhoi ystyriaeth i faterion ychwanegol sy'n adlewyrchu'r mathau gwahanol o sefydliadau a allai wneud cais am gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad, a'r amrywiaeth ehangach o lefelau ffioedd a fydd yn ddarostyngedig i ofynion cynllun ffioedd a mynediad o dan y system reoleiddio newydd.</p> <p>Y bwriad yw y dylai CCAUC orfod rhoi ystyriaeth i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ansawdd addysg y sefydliad a sut y caiff ei faterion ariannol eu trefnu er mwyn sicrhau bod buddiannau darpar-fyfyrrwyr yn cael eu gwarchod; • digonolrwydd y mesurau yr ymrwymwyd iddynt yn y cynllun yn erbyn y lefel ffioedd dysgu arfaethedig er mwyn sicrhau dull cymesur o gymeradwyo cynlluniau. <p>Ar hyn o bryd mae Rheoliad 6 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 yn nodi'r materion penodol y mae'n rhaid i'r awdurdod perthnasol (CCAUC) roi ystyriaeth iddynt wrth wneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo cynllun. Mae'r materion hynny yn cynnwys diogelu mynediad teg i addysg uwch a diogelu rhyddid academaidd. Y bwriad yw i'r materion hynny gael eu dyblygu yn y rheoliadau i'w gwneud o dan adran 7(3) o'r Bil.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Cyhoeddi cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo
ADRAN:	8(1)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau sydd â chynllun ffioedd a mynediad sydd wedi'i gymeradwyo gyhoeddi eu cynllun. Efallai y bydd y rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol ei gyhoeddi yn gwneud darpariaeth benodol ar sut a phryd y dylid gwneud hynny.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r gofynion ynghylch cyhoeddi cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo yn debygol o newid dros amser, mewn ymateb i nifer y bobl sydd am weld y cynlluniau, yr angen i sicrhau hwylustod mynediad a newidiadau ym myd technoleg. Bydd y pŵer hwn i reoleiddio yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i'r newidiadau hyn ac yn caniatáu'r dull mwyaf hyblyg a diweddar o gyhoeddi cynllun.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Bwriad y polisi yw sicrhau mwy o dryloywder o ran yr wybodaeth sydd ar gael am y cynnydd y mae sefydliadau yn ei wneud o ran ymrwymadau eu cynlluniau ffioedd. Un elfen o hyn yw sicrhau bod cynlluniau ffioedd a mynediad yn cael eu cyhoeddi fel y gall y rheini sydd â diddordeb yn y cynlluniau gael eu gweld yn hawdd.</p> <p>Ar hyn o bryd mae Rheoliad 7 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi eu cynlluniau a gymeradwywyd mewn ffordd sy'n hwylus i fyfyrwyr a darpar-fyfyrwyr. Nid ydym yn bwriadu newid y gofyniad hwn yn y set gyntaf o reoliadau.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Amrywio cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo
ADRAN:	9(1)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Bydd y pŵer hwn yn berthnasol pan fydd sefydliad, ar ôl i CCAUC gymeradwyo ei gynllun ffioedd a mynediad, yn dymuno amrywio'r cynllun. Efallai y bydd Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn ei gwneud yn bosibl i gynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo gael eu hamrywio yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yn y rheoliadau hynny. Rhaid i'r rheoliadau ddarparu y bydd amrywiad ond yn effeithiol os bydd CCAUC yn ei gymeradwyo.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae nifer y ceisiadau i amrywio cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo a natur yr amrywiadau yn debygol o newid dros amser. Yn ogystal, mae'r prosesau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i amrywiadau hefyd yn debygol o newid, yn dibynnu ar brofiad CCAUC o'r arferion a ddefnyddir, newidiadau technolegol a'r hyn y mae'r sefydliadau yn ei ffafrio. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i'r newidiadau hyn.</p> <p>Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru bŵer tebyg yn adran 36 o Ddeddf Addysg Uwch 2004.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Bwriad y polisi yw darparu gweithdrefn effeithiol i amrywio cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo yn ystod oes y cynlluniau hynny. Ar hyn o bryd mae Rheoliad 9 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 yn darparu y gall sefydliad wneud cais i wneud newidiadau i'w gynllun ffioedd yn ystod oes y cynllun ac mae'n ofynnol iddo geisio cymeradwyaeth gan CCAUC i wneud hynny.</p> <p>Y bwriad yw bod y weithdrefn ar gyfer amrywio cynllun yn adlewyrchu'r weithdrefn y mae'n rhaid i CCAUC ei mabwysiadu wrth ystyried cynllun ffioedd a mynediad am y tro cyntaf. Hynny yw, os yw CCAUC am wrthod yr amrywiad, dylai roi hysbysiad rhybuddio sy'n amlinellu ei resymau ac sy'n caniatáu i'r sefydliad gyflwyno sylwadau i CCAUC sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth benderfynu a ddylid gwrthod yr amrywiad. Yn ogystal, y bwriad yw gwneud darpariaeth ar gyfer adolygiad o benderfyniad gan CCAUC i wrthod amrywio cynllun fel sydd wedi'i amlinellu ar hyn o bryd yn Rheoliad 11 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) 2011.</p> <p>Wrth asesu newidiadau arfaethedig, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i CCAUC roi ystyriaeth i'r egwyddor allweddol y dylai myfyrwyr wybod, cyn ymrwymo i gwrs, pa ffioedd y gallant ddisgwyl eu talu, ac y dylai myfyrwyr gael eu gwarchod rhag newid yn y lefelau ffioedd lle na roddwyd gwybod iddynt am y posibilrwydd y gallent newid pan wnaethant gais am y cwrs.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Copiâu o gyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu a'i gyhoeddi
ADRAN:	11(5)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a reoleiddir (y sefydliadau hynny sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd) gydymffurfio â'r terfyn ffioedd a amlinellir yn eu cynllun sydd wedi'i gymeradwyo, neu a bennir yn unol â'r cynllun hwnnw. Os bydd sefydliad a reoleiddir yn methu â chydymffurfio â therfyn ffioedd, mae adran 11 yn rhoi'r pŵer i CCAUC roi cyfarwyddyd i'r sefydliad i gydymffurfio â'r terfyn ac ad-dalu unrhyw ffioedd uwchlaw'r terfyn a dalwyd eisoes. Gelwir cyfarwyddyd fel hwn yn 'gyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu'. Os cyflwynir cyfarwyddyd o'r fath, mae adran 11(4) yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ei gyhoeddi a rhoi copi i Weinidogion Cymru.</p> <p>Mae'r pŵer yn adran 11(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau am sut a phryd y dylai CCAUC gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu a rhoi copiâu i Weinidogion Cymru.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Bydd manylion y rheoliadau hyn sy'n ymwneud â chyhoeddi a gweinyddu cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu yn dechnegol ac yn weinyddol eu natur. Maent hefyd yn debygol o newid dros amser, yn sgil newidiadau yn arferion gwaith CCAUC, gofynion Gweinidogion Cymru a datblygiadau technolegol. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn hyblyg i'r newidiadau hyn a chynnwys y manylion technegol a gweinyddol perthnasol.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Bwriad y polisi yw amlinellu'r gofynion gweithdrefnol sy'n ymwneud â chyhoeddi a gweinyddu cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu a gyflwynir gan CCAUC. Mae hyn yn debygol o gynnwys gofyniad bod CCAUC yn cyhoeddi cyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu ar ei wefan ar ôl ei gyflwyno. Gallai'r rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi copi i Weinidogion Cymru o unrhyw gyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu (drwy e-bost) cyn ei gyflwyno.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Methiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd
ADRAN:	13(1)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer y camau i CCAUC eu cymryd os yw'n fodlon bod corff llywodraethu sefydliad wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun sydd wedi'i gymeradwyo. Hefyd, mae pwerau'r adran hon yn caniatáu i reoliadau ddiwygio neu gymhwyso unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil neu dan y Bil (gydag addasiadau neu heb addasiadau).</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r gofynion craidd i'w cynnwys mewn cynllun ffioedd a mynediad i'w hamlinellu mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6 o'r Bil (gweler uchod). Fodd bynnag, bydd pob cynllun yn unigryw gan ei fod yn adlewyrchu amgylchiadau unigol sefydliad a gallai hefyd gynnwys mesurau penodol y mae sefydliad wedi ymrwymo i'w gweithredu, gan y gall sefydliadau, yn ogystal â'r gofynion craidd, gynnwys eu darpariaethau eu hunain sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfle cyfartal a/neu hyrwyddo addysg uwch. Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn cynnig hyblygrwydd wrth orfodi'r agwedd ansafonol hon ar gynlluniau ffioedd a mynediad.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Bwriad y polisi yw i CCAUC allu rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu sefydliad i weithredu'r mesurau y mae wedi ymrwymo iddynt er mwyn cyflawni amcanion ei gynllun ffioedd a mynediad. Bwriedir i CCAUC ei gwneud yn ofynnol dilyn rhai gofynion gweithdrefnol wrth roi cyfarwyddyd o'r fath ac i sefydliadau gael hawl i wneud cais i adolygu'r cyfarwyddyd.</p> <p>Mae'r rheoliadau yn debygol o roi pŵer newydd i CCAUC i roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu sefydliad i gymryd camau i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun a gymeradwywyd. Gallai camau o'r fath gynnwys cynnal gweithgareddau a allai olygu gwariant y mae'r sefydliad eisoes wedi ymrwymo iddo yn ei gynllun.</p> <p>Y bwriad yw y bydd y rheoliadau yn diffinio'r hyn a olygir wrth fethiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun sydd wedi'i gymeradwyo. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau ddarparu bod methiant corff llywodraethu i gyflawni mesurau yr ymrwymir iddynt yn ei gynllun mewn cysylltiad â darpar-fyfyrywyr a myfyrywyr o grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol yn fethiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun (adran 6(3)(a) o'r Bil). Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu i fethiant i gyflawni amcan a amlinellir mewn cynllun (adran 6(4)(a) o'r Bil) olygu methiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol cynllun sydd wedi'i gymeradwyo. Er enghraifft, os yw cynllun sefydliad yn cynnwys yr amcan o gynyddu'r gyfran o'i gorff myfyrywyr sy'n dod o grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol ac nad yw'r sefydliad yn cyflawni'r amcan, yna ni fydd hyn yn golygu methiant i gydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun ac ni fydd CCAUC yn gallu cyflwyno cyfarwyddyd.</p> <p>Bwriad y polisi yw y caiff methiannau o'r fath eu nodi drwy werthusiad CCAUC o effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad (adran 15 o'r Bil) ac yr eir i'r afael â nhw drwy faterion y bydd CCAUC yn rhoi ystyriaeth iddynt wrth ystyried cymeradwyo cynllun newydd.</p> <p>Hefyd, rhagwelir y gallai'r rheoliadau wneud darpariaeth am y weithdrefn y bydd yn ofynnol i CCAUC ei dilyn wrth roi cyfarwyddyd. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i CCAUC gyflwyno hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu sefydliad cyn rhoi cyfarwyddyd, rhoi cyfle i'r sefydliad gyflwyno sylwadau i CCAUC a hefyd alluogi'r corff llywodraethu i</p>	

wneud cais am adolygiad o gyfarwyddyd a roddir yn ei sgil gan berson neu banel annibynnol.

Rhagwelir y gallai'r rheoliadau wneud darpariaeth am y camau y gall CCAUC eu cymryd os bydd corff llywodraethu yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau ddarparu bod CCAUC yn gallu tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun lle mae'n fodlon bod corff llywodraethu sefydliad wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd.

RHAN 3 - ANSAWDD ADDYSG

11. Mae'r Rhan hon o'r Bil yn rhoi nifer o swyddogaethau newydd i CCAUC mewn perthynas ag asesu ansawdd addysg a ddarperir yng Nghymru gan neu ar ran sefydliad a reoleiddir ac mewn perthynas â'r camau y gall CCAUC eu cymryd os yw'n fodlon bod ansawdd addysg yn annigonol neu'n debygol o fod yn annigonol yn y dyfodol. Sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad wedi'i gymeradwyo yw sefydliad a reoleiddir.

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Darparwyr allanol sy'n gyfrifol am ddarparu cyrsiau ar ran sefydliadau a reoleiddir
ADRAN:	17(4)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 17 yn rhoi dyletswydd ar CCAUC i asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd addysg a ddarperir gan, neu ar ran, pob sefydliad a reoleiddir (sefydliad sydd â chynllun ffioedd a gymeradwywyd). Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys addysg a ddarperir gan ddarparwr allanol ar ran sefydliad a reoleiddir. Mae adran 17(3) yn cadarnhau nad yw ddarparwr allanol yn sefydliad a reoleiddir, ond ei fod yn gyfrifol am ddarparu cwrs cyfan, neu ran ohono, ar ran sefydliad o'r fath.</p> <p>Mae adran 17(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau am yr amgylchiadau pan ddylid, neu pan na ddylid trin ddarparwr allanol fel rhywrai a fydd yn ddarparu cwrs cyfan, neu ran ohono, ar ran sefydliad a reoleiddir.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r pŵer hwn yn ofynnol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn hyblyg i newidiadau yn y ffordd y caiff cyrsiau eu darparu ar gyfer myfyrwyr. Er enghraifft, gallai nifer cyrsiau breiniol (cyrsiau a ddarperir ar ran sefydliad a reoleiddir) gynyddu yn y dyfodol ynghyd ag ystod y partneriaid breinio. Yn ogystal, gall dulliau o addysgu a chyflwyno cyrsiau ddatblygu dros amser. Mae'n bosibl y bydd rhai yn briodol i'w hasesu gan CCAUC ac na fydd eraill.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Efallai y bydd gan sefydliadau a ddarparwyr eraill cyrsiau addysg uwch bob math o drefniadau i ddarparu eu cyrsiau. Bwriad y polisi yw y bydd y rheoliadau yn ddarparu, lle bo angen, ar gyfer amgylchiadau lle dylid, neu lle na ddylid trin ddarparwr allanol fel rhywrai sy'n ddarparu cwrs cyfan, neu ran ohono, ar ran sefydliad a reoleiddir. Er enghraifft, efallai y bydd tiwtoriaid unigol yn helpu i ddarparu cyrsiau ar ran sefydliadau a reoleiddir. Gallai'r rheoliadau gadarnhau na ddylid trin yr unigolion hyn fel ddarparwyr allanol at ddibenion asesu ansawdd.</p>	

RHAN 4 - MATERION ARIANNOL SEFYDLIADAU A REOLEIDDIR

12. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch sut caiff materion ariannol sefydliadau a reoleiddir eu trefnu a'u rheoli. Nid oes unrhyw bwerau rheoleiddio yn y Rhan hon o'r Bil.

RHAN 5 - CYNLLUNIAU FFOEDD A MYNEDIAD: TYNNU CYMERADWYAETH YN ÔL AC ATI

13. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan all CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd sefydliad yn ogystal â'r amgylchiadau pan fydd yn rhaid i CCAUC dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad sy'n bodoli eisoes, neu pan all wneud hynny.

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Hysbysiad yn gwrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd
ADRAN:	36(7)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Os yw CCAUC yn fodlon bod sefydliad a reoleiddir wedi methu â chydymffurfio â gofynion penodol a amlinellir yn y Bil, mewn cynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd neu mewn cyfarwyddyd a gyflwynwyd o dan y Bil, gall roi hysbysiad i'r sefydliad na fydd yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd cyn diwedd y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad. Mae'r gofynion hyn yn ymwneud â therfynau ffioedd, ansawdd addysg a materion ariannol sefydliadau a reoleiddir.</p> <p>Mae adran 36(7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau sy'n ymwneud â hysbysiadau a phenderfyniadau CCAUC i beidio â chymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth am y cyfnod a bennir mewn hysbysiad pan na fydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd, y materion i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad o'r fath, neu ei dynnu'n ôl, a'r weithdrefn i'w dilyn os tynnir hysbysiad o'r fath yn ôl.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r amgylchiadau pan all CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd wedi'u hamlinellu yn adran 36(3) o'r Bil. Mae'r pŵer yn adran 36(7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu mwy o fanylion mewn rheoliadau ar elfennau gweithdrefnol penodol mewn cysylltiad â phenderfyniad gan CCAUC i beidio â chymeradwyo cynllun newydd. Bydd angen i'r materion sydd i'w trafod yn y rheoliadau gael eu diweddarau dros amser, yn sgil newidiadau o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru ac mewn ymateb i adborth gan CCAUC. Er enghraifft, gallai fod yn briodol cynyddu neu leihau'r cyfnod hiraf posibl sy'n berthnasol i hysbysiad yn gwrthod cymeradwyo cynllun newydd, ar ôl trafod effeithiolrwydd hysbysiadau o'r fath gyda CCAUC.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Y bwriad yw y bydd y rheoliadau hyn yn amlinellu gofynion gweithdrefnol penodol mewn perthynas â phenderfyniad gan CCAUC i beidio â chymeradwyo cynllun newydd. Disgwylir i'r gofynion gweithdrefnol gynnwys y cyfnod a bennir mewn hysbysiad pan na fydd CCAUC yn cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd, y materion i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid rhoi neu dynnu'n ôl hysbysiad o'r fath, a'r weithdrefn i'w dilyn os tynnir</p>	

hysbysiad o'r fath yn ôl.

Ar hyn o bryd, cynigir mai'r cyfnod hiraf posibl y dylai hysbysiad fod yn weithredol yw blwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i'r cyfnod hiraf posibl a bennir ar hyn o bryd yn Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 mewn perthynas â'r drefn bresennol o ran capio ffioedd. Y disgwyl yw, os bydd CCAUC yn penderfynu cyflwyno hysbysiad, y bydd gofyn iddo roi gwybod i'r sefydliad dan sylw yn ysgrifenedig a chyhoedd'r hysbysiad hwn ar ei wefan. Hefyd, os bydd CCAUC yn penderfynu tynnu hysbysiad yn ôl, dylid rhoi gwybod am hynny hefyd i'r sefydliad dan sylw yn ysgrifenedig a'i gyhoeddi ar ei wefan.

Disgwylir y bydd y materion i CCAUC eu hystyried, wrth benderfynu a ddylid rhoi hysbysiad ynghylch ei fwriad i wrthod cymeradwyo cynllun newydd, yn cynnwys efallai ddifrifoldeb y methiant i gydymffurfio ac a oes yna ddulliau gweithredu eraill priodol. O ran tynnu hysbysiad yn ôl, disgwylir i'r materion i'w hystyried gan CCAUC gynnwys efallai unrhyw gamau lliniaru a gymerir gan y sefydliad (ar ôl derbyn yr hysbysiad) er mwyn cydymffurfio ag amod s yn adran 36(3) o'r Bil.

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Dyletswydd i dynnu cymeradwyaeth yn ôl
ADRAN:	37(2) a (3)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 37 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad drwy roi hysbysiad i sefydliad os yw'n fodlon bod y sefydliad wedi peidio â bod yn sefydliad yng Nghymru, darparu addysg uwch neu fod yn elusen.</p> <p>O dan adran 37(2), gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau am y materion i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd, a'r weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad ei fod am ei dynnu'n ôl. Gall y rheoliadau gymhwyso hefyd (gydag addasiadau neu heb addasiadau) y gofynion gweithdrefnol sy'n ymwneud â hysbysiadau a sylwadau rhybuddio (fel y mae adrannau 40 i 43 yn eu hamlinellu) i unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan adran 37.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r pŵer rheoleiddio yn ofynnol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiweddarau o bryd i'w gilydd y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â thynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad sefydliad.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Disgwylir i'r rheoliadau hyn amlinellu'r materion i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid tynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a'r weithdrefn i'w dilyn mewn cysylltiad â rhoi hysbysiad ynghylch ei thynnu'n ôl mewn amgylchiadau lle mae'n fodlon bod y sefydliad wedi peidio â bod yn sefydliad yng Nghymru, darparu addysg uwch neu fod yn elusen.</p> <p>Gallai'r rheoliadau hyn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi ystyriaeth i benderfyniadau'r Comisiwn Elusennau mewn perthynas â sefydliadau nad yw o'r farn bod ganddynt statws elusennol bellach a gwybodaeth ynghylch i ba raddau y mae sefydliad yn gweithredu yng Nghymru.</p> <p>Bwriedir hefyd i'r rheoliadau hyn wneud darpariaeth ar gyfer gofynion gweithdrefnol tebyg i'r rheini y darperir ar eu cyfer yn adrannau 41, 42 a 43 o'r Bil a allai ei gwneud yn ofynnol i CCAUC gyflwyno hysbysiad rhybuddio yn nodi ei fwriad i dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun, yn amlinellu'r rhesymau dros y bwriad i'w thynnu'n ôl, ac yn rhoi cyfle i'r sefydliad gyflwyno sylwadau yn erbyn hysbysiad o'r fath cyn i gymeradwyaeth i gynllun gael ei thynnu'n ôl.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Pŵer i dynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad
ADRAN:	38(3)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 38 yn rhoi'r pŵer i CCAUC dynnu ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl mewn rhai amgylchiadau; hynny yw, lle bydd sefydliad wedi methu'n gyson â chydymffurfio â therfyn ffioedd neu ddarpariaethau cyffredinol ei gynllun sydd wedi'i gymeradwyo, lle gwelwyd bod ansawdd yr addysg a ddarperir yn y sefydliad yn ddifrifol o annigonol, neu lle bu methiant difrifol i gydymffurfio â'r cod rheoli ariannol.</p> <p>Mae adran 38(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'n benodol mewn rheoliadau faterion i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid tynnu ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad yn ôl o dan yr adran hon.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r pŵer hwn yn ofynnol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i newidiadau yn y ffordd y darperir addysg uwch yng Nghymru. Os bydd y newidiadau hyn yn arwain at bryderon ynghylch ansawdd addysg neu sefydlogrwydd ariannol sefydliadau yng Nghymru, efallai y bydd Gweinidogion Cymru am nodi'r rhain yn faterion i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylid tynnu'n ôl gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Efallai hefyd y bydd Gweinidogion Cymru am wneud darpariaeth bellach ynghylch methiant cyson i gydymffurfio â therfynau ffioedd a/neu ddarpariaethau cyffredinol cynlluniau ffioedd a mynediad.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Yn amodol ar fodloni amodau a nodir yn adran 38(2) o'r Bil, rhoddir disgrisiwn i CCAUC benderfynu a ddylai dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad. Wrth weithredu ar y disgrisiwn hwn, bwriad y polisi yw y bydd y rheoliadau yn amlinellu'r materion i CCAUC eu hystyried wrth benderfynu a ddylai roi hysbysiad o'i fwriad i dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad; Gallai'r materion hyn gynnwys, er enghraifft, diffinio'r hyn a olygir wrth fethiant cyson i gydymffurfio â therfynau ffioedd neu ddarpariaethau cyffredinol cynllun a gymeradwywyd, effaith methiant i ddarparu addysg o ansawdd digonol wrth benderfynu ynghylch achos o annigonolrwydd difrifol, ac a yw achosion o dorri'r cod rheoli ariannol wedi effeithio ar sefydlogrwydd ariannol y sefydliad wrth benderfynu ynghylch achos o fethiant difrifol i gydymffurfio â'r Cod.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Cyhoeddi hysbysiadau a gyflwynir o dan Ran 5
ADRAN:	39(2)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 39 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi copi o unrhyw hysbysiad, a gyflwynir o dan Ran 5 o'r Bil, i Weinidogion Cymru. Mae hefyd yn gofyn i CCAUC gyhoeddi'r hysbysiad hwnnw.</p> <p>Mae adran 39(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau o ran sut y bydd CCAUC yn rhoi copi o hysbysiad i Weinidogion Cymru ac yn cyhoeddi'r hysbysiad hwnnw, a hefyd o ran pryd y bydd yn gwneud hynny.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r gofyniad i CCAUC gyhoeddi hysbysiadau wedi ei nodi yn y Bil. Bydd y pŵer hwn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn gallu pennu manylion technegol a gweinyddol o ran sut a phryd y mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiadau o'r fath. Mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r manylion o bryd i'w gilydd yn sgil datblygiadau technolegol a phrofiad o'r arferion a ddefnyddir, gyda'r nod o wella effeithiolrwydd y gofynion cyhoeddi, a chyrraedd cynulleidfa eang.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Y bwriad yw y bydd y rheoliadau'n pennu sut y bydd CCAUC yn cyhoeddi hysbysiadau a phryd y bydd yn eu cyhoeddi. Mae'n debygol y byddant yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau ar wefan benodol neu mewn papur newydd, yn ogystal â sicrhau bod cyfnod penodol o amser yn mynd heibio rhwng cyflwyno hysbysiad a'i gyhoeddi.</p>	

RHAN 6 – HYSBYSIADAU A CHYFARWYDDIADAU A RODDIR GAN CCAUC

14. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gweithdrefnau y bydd CCAUC yn eu dilyn, a hynny o ran camau penodol y gellid eu cymryd mewn perthynas â sefydliadau a reoleiddir. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys rhoi hysbysiadau rhybuddio a hefyd sut y caiff sefydliadau wneud cais am adolygiad.

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio
ADRAN:	41(2)(d)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mewn achosion lle mae CCAUC yn bwriadu rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd i sefydliad a reoleiddir (fel y disgrifir yn adran 40(1)), mae adran 41 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC roi hysbysiad rhybuddio i'r sefydliad yn gyntaf. Rhaid i hysbysiad rhybuddio nodi manylion y rhybudd neu'r cyfarwyddyd arfaethedig, y rhesymau pam y bwriedir ei gyflwyno, a hefyd rhoi gwybod i'r sefydliad a reoleiddir am ei hawl i gyflwyno sylwadau.</p> <p>Mae adran 41(2)(d) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau i bennu'r cyfnod pryd y caiff sefydliad a reoleiddir gyflwyno sylwadau am hysbysiad neu gyfarwyddyd arfaethedig. Mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl iddynt wneud darpariaeth o ran sut y dylid cyflwyno'r sylwadau hynny.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r manylion sy'n ymwneud â gofynion a chynnwys hysbysiadau rhybuddio wedi eu nodi yn y Bil. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu manylion technegol a gweinyddol mewn perthynas â hawl sefydliadau a reoleiddir i gyflwyno sylwadau am hysbysiadau neu gyfarwyddiadau arfaethedig. Mae'n bosibl y bydd angen diweddarau'r manylion hyn o bryd i'w gilydd yn sgil datblygiadau technolegol a phrofiad o'r arferion a ddefnyddir.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Ar hyn o bryd, y bwriad yw y bydd yn rhaid cyflwyno sylwadau i CCAUC ar ffurf ysgrifenedig ac y bydd yn rhaid i'r sylwadau gyrraedd CCAUC cyn pen 40 o ddiwrnodau calendr i ddyddiad yr hysbysiad rhybuddio. Byddai hynny'n cydweddu â'r cyfnod y darperir ar ei gyfer yn Rheoliad 13 o Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011 sy'n nodi bod penderfyniad dros dro yn dod yn benderfyniad terfynol os na fydd corff llywodraethu'n gwneud cais am adolygiad cyn pen 40 o ddiwrnodau calendr.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Gwybodaeth i'w rhoi gyda hysbysiadau a chyfarwyddiadau
ADRAN:	42(c)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Os bydd CCAUC yn rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd fel y disgrifir yn adran 40(1), bydd yn rhaid iddo ar yr un pryd roi datganiad i'r sefydliad a reoleiddir, gan nodi ei resymau dros roi'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd, a hefyd rhoi gwybod i'r sefydliad am ei hawl i wneud cais am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd o dan adran 43.</p> <p>Mae adran 42(c) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddweud mewn rheoliadau pa wybodaeth arall y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad sy'n gysylltiedig â hysbysiad neu gyfarwyddyd.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad sy'n ymwneud â hysbysiad neu gyfarwyddyd o dan adran 40(1) wedi ei nodi yn y Bil. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol cynnwys gwybodaeth ychwanegol mewn datganiad gan sicrhau hefyd bod y datganiad yn berthnasol i'r arferion cyfredol.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Fel y dywedwyd uchod, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn datganiad wedi ei nodi yn y Bil. Mae'n bosibl y bydd y rheoliadau hyn hefyd yn gofyn bod datganiad weithiau'n cynnwys gwybodaeth sy'n hysbysu sefydliad a reoleiddir y bydd copi o hysbysiad neu gyfarwyddyd yn cael ei roi i Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi.</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Adolygu hysbysiadau a chyfarwyddiadau
ADRAN:	43(3)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 43 yn ymwneud ag adolygu hysbysiad neu gyfarwyddyd fel y nodir yn adran 40(1). Mae'r adran hon yn dod yn berthnasol ar ôl i CCAUC benderfynu ei fod am roi'r math hwn o hysbysiad neu gyfarwyddyd i sefydliad a reoleiddir. Bryd hynny, caiff y sefydliad wneud cais yn gofyn am adolygiad o'r hysbysiad neu'r cyfarwyddyd. Gweinidogion Cymru wedyn fyddai'n penodi naill ai unigolyn neu banel o bobl i gynnal yr adolygiad dan sylw.</p> <p>Mae adran 43(3) yn gofyn i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud â'r adolygiadau hyn. Bydd y rheoliadau hyn yn gallu darparu ar gyfer y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi ar ba sail y ceir gwneud cais am adolygiad; • nodi o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid gwneud cais am adolygiad; • nodi sut y gellir gwneud cais am adolygiad; • pennu'r weithdrefn y mae'n rhaid i unigolyn neu banel ei dilyn wrth gynnal adolygiad; • pennu'r camau y mae'n rhaid i CCAUC eu cymryd yn sgil cynnal adolygiad; • nodi bod yn rhaid trin hysbysiad neu gyfarwyddyd fel hysbysiad neu gyfarwyddyd sydd heb ei gyflwyno nes bod y camau penodol wedi eu cymryd neu fod cyfnod penodol wedi dod i ben. 	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae angen y pŵer hwn i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiweddarau'r broses adolygu o bryd i'w gilydd, er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru ac ymateb i'r adborth a roddir gan CCAUC a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb, mewn perthynas â'r adolygiadau a gynhelir</p> <p>Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bŵer tebyg yn adran 39 o Ddeddf Addysg Uwch 2004.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Rhagwelir y bydd y rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer y rhesymau y byddai cyrff llywodraethu yn cael eu defnyddio i wneud cais am gynnal adolygiad. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddai corff llywodraethu'n cael defnyddio rhesymau megis bod ganddo ffactor perthnasol i'w ystyried, ond bod yna reswm da pam na chafodd y ffactor hwnnw ei gyflwyno at sylw CCAUC cyn hynny; neu fod y corff llywodraethu o'r farn bod CCAUC wedi diystyru ffactor perthnasol y dylai fod wedi ei ystyried cyn dod i benderfyniad ynghylch rhoi hysbysiad neu gyfarwyddyd; neu fod y corff o'r farn bod hysbysiad neu gyfarwyddyd yn anghymesur.</p> <p>Gallai'r rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer pennu'r cyfnod pan fydd yn bosibl gwneud cais am adolygiad, a sut y bydd yn rhaid cyflwyno'r cais hwnnw. Er enghraifft, byddai'r rheoliadau'n gallu darparu bod yn rhaid i gais gan gorff llywodraethu fod yn ysgrifenedig, a bod yn rhaid i'r cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 o ddiwrnodau calendr i ddyddiad yr hysbysiad neu'r cyfarwyddyd.</p> <p>Byddai'n bosibl cynnwys darpariaethau yn y rheoliadau hyn ar gyfer y weithdrefn y byddai'n rhaid i unigolyn neu banel ei dilyn wrth gynnal adolygiad, neu'r camau y byddai'n rhaid i</p>	

CCAUC eu cymryd ar ôl cynnal adolygiad. Er enghraifft, byddai'n bosibl i reoliadau o'r fath ofyn i'r panel lunio argymhelliad o ganlyniad i'r adolygiad a hefyd ofyn i CCAUC ailystyried ei benderfyniad i gyflwyno hysbysiad neu gyfarwyddyd yng ngoleuni'r argymhelliad hwnnw.

Gallai rheoliadau hefyd wneud darpariaeth fel na cheir trin hysbysiad neu gyfarwyddyd sy'n berthnasol i adran 43 fel hysbysiad neu gyfarwyddyd y mae CCAUC wedi ei roi, nes bod camau penodol wedi eu cymryd neu fod cyfnod penodol wedi dod i ben. Er enghraifft, byddai'n bosibl i'r rheoliadau ddarparu na ddylid trin unrhyw hysbysiad neu gyfarwyddyd fel un sydd wedi ei gyflwyno nes bod adolygiad wedi ei gwblhau neu fod y cyfnod ar gyfer gwneud cais am gynnal adolygiad wedi dod i ben (a bod y corff llywodraethu perthnasol heb wneud cais). Byddai hynny'n golygu na fyddai hysbysiad yn dod i rym, neu na fyddai'n ofynnol i gorff llywodraethu gydymffurfio â chyfarwyddyd, tra byddai'r adolygiad yn mynd rhagddo neu yn ystod y cyfnod pan fyddai'n bosibl gwneud cais am adolygiad.

Ar hyn o bryd, mae'r broses adolygu sy'n berthnasol i gymeradwyo a gorfodi cynlluniau ffioedd o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn cael ei nodi yn Rheoliadau 10 i 18 yn Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011.

RHAN 7 – SWYDDOGAETHAU YCHWANEGOL CCAUC

15. Mae'r Rhan hon yn rhoi swyddogaethau i CCAUC o ran darparu adroddiadau ar gyfer Gweinidogion Cymru a darparu gwybodaeth a chyingor ar gyfer partion â diddordeb.

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Datganiad o swyddogaethau ymyrryd
ADRAN:	49(4)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Mae adran 49 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC baratoi a chyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu gweithredu rhai o'r swyddogaethau ymyrryd. Cyn cyhoeddi'r datganiad hwn, rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad a reoleiddir, a hefyd unrhyw bersonau eraill fel sy'n briodol ym marn y Cyngor.</p> <p>Mae adran 49(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau o ran y datganiad hwn, gan gynnwys sut y bydd yn cael ei baratoi, ei ffurf a'i gynnwys, ac unrhyw ofynion o ran ei gyhoeddi ac ymgynghori arno.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae angen y pŵer hwn i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth dechnegol a gweinyddol bellach mewn perthynas â datganiad CCAUC ar swyddogaethau ymyrryd. Mae'n bosibl y bydd y gofynion o ran ffurf a chynnwys y datganiad, yn ogystal ag o ran ei gyhoeddi, yn newid dros gyfnod o amser. Bydd y pŵer hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru allu ymateb i newidiadau.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Mae'n debygol y bydd y rheoliadau'n gofyn i CCAUC gyhoeddi copi o fersiwn derfynol y datganiad ar ei wefan. Mae'n bosibl hefyd y byddant yn gofyn i CCAUC anfon copi o'r datganiad a gyhoeddwyd at bob sefydliad a reoleiddir.</p> <p>Gallai'r rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad gynnwys adran ar bob un o swyddogaethau ymyrryd CCAUC fel y nodir yn adran 49(5).</p>	

RHEOLIADAU SY'N YMWNEUD Â:	Diffiniad o ffioedd
ADRAN:	54(1)
DISGRIFIAD O'R PŴER/RHEOLIAD	
<p>Rhoddir diffiniad o "ffioedd" yn adran 54(1). Mae'n cynnwys nifer o fathau o ffioedd sydd wedi eu heithrio at ddibenion y diffiniad. Yn ogystal â'r ffioedd sydd wedi eu heithrio yn y Bil, mae gan Weinidogion Cymru bŵer hefyd i wneud rheoliadau sy'n eithrio mathau eraill o ffioedd at y dibenion hyn.</p>	
PAM MAE ANGEN Y PŴER RHEOLEIDDIO	
<p>Mae'n debygol y bydd y mathau o ffioedd a'r ffyrdd y maent y cael eu gweithredu yn newid dros gyfnod o amser i adlewyrchu'r newidiadau a fydd yn digwydd yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Bydd y pŵer hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru allu ymateb i'r newidiadau mewn modd sy'n sicrhau y bydd y fframwaith rheoleiddio, a sefydlir o dan y Bil, yn parhau i weithredu'n effeithiol.</p>	
BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU	
<p>Nid oes unrhyw gynlluniau i eithrio unrhyw fathau eraill o ffioedd o'r diffiniad o "ffioedd" ar hyn o bryd. Fodd bynnag bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n gyson i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r newidiadau i'r modd y mae sefydliadau'n codi ffioedd ar fyfyrwyr.</p>	

HIGHER EDUCATION (WALES) BILL – TABLE OF DERIVATIONS

This document is intended as an informal aid to debate on the Bill in the National Assembly for Wales. While care has been taken to ensure that the document is as accurate as reasonably practicable, it does not purport to be, and should not be relied on as, authoritative.

The attached tables are intended to provide information on the derivation of the provisions of the Higher Education (Wales) Bill. They do not provide definitive or exhaustive guidance, and should be read in conjunction with the Bill and with the explanatory notes on the Bill.

Key to Abbreviations

- (1) HEA 2004: Higher Education Act 2004;
- (2) FHEA 1992: Further and Higher Education Act 1992;
- (3) S.I. 2011/884: The Student Fees (Approved Plans) (Wales) Regulations 2011; and
- (4) “s.” denotes section.

HIGHER EDUCATION (WALES) BILL – TABLE OF DERIVATIONS		
SECTION/PARAGRAPH	EXISTING LEGISLATION	SUBSTANTIVE CHANGE
PART 1 – Introduction		
1	New	-
PART 2 – Fee and Access Plans		
2	s.34(1), HEA 2004	Yes
3	New	-
4	s.35, HEA 2004	Partial
5(1)	s.33(1), HEA 2004	Partial
5(2)(a)	s.33(1), HEA 2004	Partial
5(2)(b)	s.28(6), HEA 2004 (definition of “qualifying course”)	Partial
5(2)(c)	s.28(6), HEA 2004 (definition of “academic year”)	Partial
5(3)	s.33(1), HEA 2004	Partial
5(4)	s.33(1), HEA 2004	Partial
5(5)	s.28(6) (definition of “qualifying person”) and s.29(1), HEA 2004	Partial
5(6)	s.41(1), HEA 2004 (definition of “course”)	No
5(7)	s.29(2), HEA 2004	No
5(8)	s.29(1), HEA 2004	Partial
5(9)	s.28(5), HEA 2004	Yes
6(1)	s.33(3)(a), HEA 2004	No
6(2)	s.33(3)(b), HEA 2004	No
6(3)(a)	s.33(5)(a), HEA 2004	No
6(3)(b)	New	-
6(3)(c)	s.33(5)(b), HEA 2004	No
6(3)(d)	s.33(5)(c), HEA 2004	No
6(4)(a)	s.33(5)(d), HEA 2004	No

HIGHER EDUCATION (WALES) BILL – TABLE OF DERIVATIONS		
SECTION/PARAGRAPH	EXISTING LEGISLATION	SUBSTANTIVE CHANGE
6(4)(b)	New	-
6(4)(c)	s.33(5)(e), HEA 2004	No
6(5)	s.33(6), HEA 2004	No
6(6)	s.33(5)(a), HEA 2004	No
6(7)	s.33(4), HEA 2004	No
7(1)	s.34(2) and s.34(4), HEA 2004 and regulation 5 of S.I. 2011/884	Partial
7(2)	New	-
7(3)	s.34(4), s.34(5) and s.34(7)(b), HEA 2004	No
7(4)	New	-
7(5)	New	-
7(6)	New	-
7(7)	New	-
8	s.34(6), HEA 2004	No
9	s.36(1) and s.36(2)(b), HEA 2004	No
10(1)	s.28(1)(a), HEA 2004	Yes
10(2)	New	-
10(3)	s.28(1)(a) and s.28(6) (definition of “qualifying fees”), HEA 2004	Yes
10(4)	New	-
10(5)	s.28(1)(a), HEA 2004	Yes
11	New	-
12	New	-
13	New	-
14	New	-
15(1)(a)	s.33(5)(f), HEA 2004	Yes
15(1)(b)	s.33(5)(f), HEA 2004	Yes
15(1)(c)	New	-

HIGHER EDUCATION (WALES) BILL – TABLE OF DERIVATIONS		
SECTION/PARAGRAPH	EXISTING LEGISLATION	SUBSTANTIVE CHANGE
15(1)(d)	New	-
15(2)	New	-
16(1)	s.33(5)(f), HEA 2004	Yes
16(2)	New	-
PART 3 – Quality of Education		
17(1)	s.70(1)(a), FHEA 1992	Yes
17(2)	New	-
17(3)	New	-
17(4)	New	-
18	New	-
19	New	-
20	New	-
21	New	-
22	New	-
23	New	-
24	New	-
25(1)	s.70(1)(b), FHEA 1992	Partial
25(2)	s.70(1)(b), FHEA 1992	Partial
25(3)(a)	s.70(2)(b), FHEA 1992	No
25(3)(b)	s.70(3), FHEA 1992	Partial
25(4)	s.70(3), FHEA 1992	No
25(5)	s.70(4), FHEA 1992	No
26	New	-
PART 4 – Financial Affairs of Regulated Institutions		
27	New	-
28	New	-
29	New	-
30	New	-
31	New	-
32	New	-

HIGHER EDUCATION (WALES) BILL – TABLE OF DERIVATIONS		
SECTION/PARAGRAPH	EXISTING LEGISLATION	SUBSTANTIVE CHANGE
33	New	-
34	New	-
35	New	-
PART 5 – Fee and Access Plans: Withdrawal of Approval etc		
36(1)	s.38(1), HEA 2004	Partial
36(2)	s.38(1), HEA 2004	Partial
36(3)(a)	s.38(1), HEA 2004	Partial
36(3)(b)	s.38(1), HEA 2004	Partial
36(3)(c)	New	-
36(3)(d)	New	-
36(4)	New (although similar provision in force in relation to England under s.37(2), HEA 2004)	-
36(5)	New	-
36(6)	New	-
36(7)(a)	s.38(2), HEA 2004	No
36(7)(b)	s.38(3)(a), HEA 2004	Partial
36(7)(c)	New	-
36(8)	s.38(3)(b), HEA 2004	Yes
37	New	-
38	New	-
39	New	-
PART 6 – Notices and Directions Given by HEFCW		
40(1)(a)	s.34(4) and s.39, HEA 2004 and regulations 5, 11(a) and 12 to 18 of SI 2011/884	Partial
40(1)(b)	New	-
40(1)(c)	New	-
40(1)(d)	New	-
40(1)(e)	s.38(3)(b) and s.38(3)(c),	Partial

HIGHER EDUCATION (WALES) BILL – TABLE OF DERIVATIONS		
SECTION/PARAGRAPH	EXISTING LEGISLATION	SUBSTANTIVE CHANGE
	HEA 2004 and regulations 10, 11(c) and 12 to 18 of SI 2011/884	
40(1)(f)	New	-
40(2)	New	-
41	<p>s.34(4), HEA 2004 and regulation 5 of SI 2011/884 (in so far as s.41 of the Bill relates to a notice under s.7(1)(b) of the Bill)</p> <p>s.38(3)(b) and s.38(3)(c), HEA 2004 and regulation 10 of SI 2011/884 (in so far as s.41 of the Bill relates to a notice under s.36 of the Bill)</p> <p>Otherwise, section 41 of the Bill is new (in terms of a direction under s.11, s.19 or s.32 of the Bill or a notice under s.38 of the Bill)</p>	Partial
42	<p>s.34(4), HEA 2004 and regulation 5 of SI 2011/884 (in so far as s.42 of the Bill relates to a notice under s.7(1)(b) of the Bill)</p> <p>s.38(3)(b) and s.38(3)(c), HEA 2004 and regulation 10 of SI 2011/884 (in so far as s.41 of the Bill relates to a notice under s.36 of the Bill)</p> <p>Otherwise, s. 42 of the Bill is new (in terms of a direction under s.11, s.19 or s.32 of the Bill or a notice under s.38 of the</p>	Yes

HIGHER EDUCATION (WALES) BILL – TABLE OF DERIVATIONS		
SECTION/PARAGRAPH	EXISTING LEGISLATION	SUBSTANTIVE CHANGE
	Bill)	
43	s.39, HEA 2004 and regulations 11 to 18 of SI 2011/884 (in so far as s.43 of the Bill relates to a notice under s.7(1)(b) of the Bill and a notice under s.36 of the Bill) Otherwise, s. 43 of the Bill is new (in terms of a direction under s.11, s.19 or s.32 of the Bill or a notice under s.38 of the Bill)	Partial
44	New	-
45	New	-
PART 7 – Supplementary Functions of HEFCW		
46	s.32(4), HEA 2004	No
47(1)	s.40A(1), HEA 2004	Partial
47(2) and (3)	s.40A(2), HEA 2004	Partial
47(4) and (5)	s.40A(1), HEA 2004	Partial
47(6)	New	-
48(1)(a)	New	-
48(1)(b)	s.40A(2), HEA 2004	Partial
48(1)(c)	s.40A(2), HEA 2004	Partial
48(1)(d)	New	-
48(1)(e)	New	-
48(2)	New	-
49	New	-
50(1)	s.40A(3)(a)	No
50(2)	s.40A(3)(b)	No
51(1)	s.40A(4)	Partial
51(2)	New	-

HIGHER EDUCATION (WALES) BILL – TABLE OF DERIVATIONS		
SECTION/PARAGRAPH	EXISTING LEGISLATION	SUBSTANTIVE CHANGE
51(3) and (4)	New	-
PART 8 - General		
52	New	-
53	New	-
54	New	-
55	New	-
56	New	-
57	New	-
Schedule		
Part 1 (paragraphs 1 to 26)	Contains minor and consequential amendments	-
Part 2 (paragraphs 27 to 31)	New (contains transitional provision)	-

FAO: David Melding, AM (Chair)
c/o Gareth Williams (Clerk)
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Dear David

HE (Wales) Bill

We wonder if the Constitutional and Legislative Affairs Committee will consider making a Stage 1 report in relation to the HE (Wales) Bill, introduced on 19 May 2014? As anticipated the Bill proposes major changes to the regulatory system for universities in Wales, and is a substantive and complex piece of legislation. At this stage, in advance of reaching a firm view on the contents of the Bill, we would like to make sure – in the interests of all parties – that the Bill benefits from full scrutiny and due process and there are a number of issues which we feel may benefit from your Committee's attention.

In particular,

- The Bill leaves many of the proposals of the Technical consultation to be dealt with through subsequent subordinate legislation, which makes it difficult to fully assess the impact of the Bill and consequent changes particularly in terms of their impact for key issues such as universities' charity status and classification for purposes of national accounting.
- In the light of the above, a key concern is that in the large majority of cases, the negative resolution procedure is proposed which means that the legislation can be passed automatically without consultation or requiring a majority vote. It also means that the legislation cannot be amended, and must be accepted or rejected as a whole.
- The extensive use of regulations also raises issues about the commencement and feasibility of implementation of the Bill, intended to apply for 2016/17. It is clear that the Bill cannot be implemented without the prior exercise of many of these powers. We also note that the transitional arrangements appear to depend in part on what regulations are brought into force in the transitional period.
- In three instances, the Bill incorporates powers to amend either the Act itself or other primary legislation through the means of subsequent regulations (i.e. 'Henry VIII powers'). In the past such powers have been controversial and used with great caution, since changes to primary legislation may be made without the normal oversight of the Assembly.
- The Bill also confers significant new powers on HEFCW which are legislative and judicial in character. This includes, for instance, new statutory powers to issue guidance which is mandatory for institutions to take account of, wide powers to determine and enforce fee plan requirements, and the ability determine and enforce a financial code. We would welcome comments on the use of these.

- We submitted evidence to your Committee's Inquiry on law-making in the 4th Assembly, prior to the introduction of the Bill on 19 May 2014, which raised concerns about the lack of prior consultation on a Draft Bill. We would welcome the committees dealing with this Bill being mindful of the potential need for flexibility in reviewing the Stage 1 timescales in this light.

We are currently preparing a response for the Children & Young People Committee by 18 June 2014, and would be happy to submit further comments at that stage if you would find it helpful.

Best wishes

Ben

Ben Arnold
Policy Adviser / Cynghorwr Polisi
Higher Education Wales / Addysg Uwch Cymru

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Offerynnau Statudol Gydag Adroddiadau Clir
16 Mehefin 2014**

**CLA406 – Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru)
2014**

Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau 1986 ("Rheoliadau 1986") yn caniatáu i swyddogion gorfodi sifil symud cerbydau y caniatwyd iddynt aros yn eu hunfan ar ffordd mewn ardal gorfodi sifil yng Nghymru. Mae Rheoliadau 1986 (fel y'u diwygiwyd gan Offerynnau Statudol 2008) yn cyfeirio at Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2008 a Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Hysbysiadau Tâl Cosb, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008, sydd wedi'u dirymu a'u disodli.

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn ddiwygio ymhellach Reoliadau 1986 i gyfeirio at Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013.

**CLA407 – Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol)
(Cymru) 2014**

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu manylion am yr ymgynghoriad y bydd Gweinidogion Cymru yn ei gynnal cyn arfer eu pŵer cyfarwyddo i 'bennu' dyddiadau tymor ysgol ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

CLA408 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2014

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ynghylch iechyd planhigion sy'n gymwys yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Tatws sy'n Tarddu o'r Aifft (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2245 (Cy. 209)) i orfodi Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2011/787/EU, sy'n ymwneud â mesurau brys y caniateir eu cymryd yn erbyn lledaenu *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al. o ran tatws sy'n tarddu o'r Aifft.

Mae rheoliad 3 yn darparu ar gyfer porth gwybodaeth rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) a Gweinidogion Cymru at ddibenion Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1643 (Cy.158)) ac ar gyfer trosedd ynglŷn â datgelu gwybodaeth yn anghyfreithlon.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 i orfodi Penderfyniad 1/2010 y Cyd-bwyllgor ar Amaethyddiaeth (2011/83/EU), sy'n ymwneud â rheolaethau ynghylch iechyd planhigion wrth fasnachu deunydd planhigion gyda'r Swistir.

CLA409 – Gorchymyn Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (Swyddogaethau Atodol) 2014

Gweithdrefn: Negyddol

